O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2091 (Cy. 241) (C. 83)

# TAI, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Tai (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2) 2012

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed gan Weinidogion Cymru, yn cychwyn Rhan 1 (Atal Dros Dro yr Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig) o Fesur Tai (Cymru) 2011 ("y Mesur") ar 3 Medi 2012.

Caiff awdurdod tai lleol wneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 1 o'r Mesur am gyfarwyddyd i atal dros dro yr hawl i brynu a hawliau cysylltiedig yn ei ardal am gyfnod o hyd at 5 mlynedd, ar yr amod ei fod wedi cwblhau ymgynghoriad yn unol ag adran 2 o'r Mesur o fewn y cyfnod o 6 mis cyn y cais, a'i fod, yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwnnw, yn dod i'r casgliad bod y cyflwr o bwysau oherwydd prinder tai (fel a nodir yn adran 1(2) o'r Mesur) yn bodoli.

Dyma'r ail Orchymyn Cychwyn a wnaed o dan y Mesur.

## NODYN AR Y GORCHYMYN CYCHWYN BLAENOROL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

| Darpariaethau | Y Dyddiad Cychwyn | Rhif O.S. |
|---|---|---|
| Rhan 2 o Fesur Tai (Cymru) 2011 | Daeth y rhan fwyaf o Ran 2 o'r Mesur i rym ar 18 Hydref 2011 a'r gweddill ar 2 Rhagfyr 2011 | 2011/2475 (Cy. 267 (C.89)) |

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 2091 (Cy. 241 ) (C. 83)

## TAI, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Tai (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2) 2012

*Gwnaed* *9 Awst 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 90(2) o Fesur Tai (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Tai (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2) 2012 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw 3 Medi 2012; ac

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Tai (Cymru) 2011.

**Cychwyn Rhan 1 o Fesur Tai (Cymru) 2011 (Atal Dros Dro yr Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig) ar y dyddiad cychwyn**

**2.** Daw Rhan 1 o'r Mesur (Atal Dros Dro yr Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig) i rym ar y dyddiad cychwyn.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, un o Weinidogion Cymru

9 Awst 2012

(**1**) 2011 mccc 5.